| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR** | Pwyllgor Craffu Cyngor Gwynedd |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | 30 Ionawr, 2020 |
| **TEITL YR EITEM** | Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru |
| **PWRPAS** | Rhoi diweddariad ar Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru |
| **AWDUR** | Aled Gibbard, Uwch Reolwr |
| **AELOD CABINET** | Cynghorydd Dilwyn Morgan |

**1.Cyflwyniad**

1.1 Fe osodwyd cyfrifoldebau statudol ychwanegol ar awdurdodau lleol i ddarparu ystod fwy eang o wasanaethau mabwysiadu gyda chyflwyniad Deddf Plant a Mabwysiadu 2002 a'r rheoliadau ac arweiniad cysylltiedig ynghyd a thargedau a osodwyd gan y llywodraeth. Oherwydd cyfyngder ar lefelau staffio ac adnoddau, fe godwyd pryderon ynglŷn â'r gallu i gydymffurfio gyda'r rheoliadau hyn ac y byddai awdurdodau lleol llai yn ei chael yn anodd lleoli plant o fewn eu cymunedau.

1.2 Er mwyn datrys rhai o'r pryderon hyn fe gychwynnodd y 6 awdurdod lleol yn y gogledd weithio mewn partneriaeth i weithredu gwasanaeth rhanbarthol lle gellid cyfuno adnoddau a bod mwy effeithlon. Fel rhan o'r gwaith hwn fe gafwyd cyllid grant ychwanegol o dan "Gwneud y Cysylltiadau" ac fe aeth y 6 awdurdod mewn i gytundeb partneriaeth i roi Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru (NWAS) yn ei le. Daeth y gwasanaeth yn weithredol yn Ebrill 2010 a'r rhanbarth cyntaf yng Nghymru I roi gwasanaeth rhanbarthol mabwysiadu yn ei le. Fe'I sefydlwyd tua 5 mlynedd cyn i'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol cael ei greu.

1.3 Lansiwyd y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn Nhachwedd 2014 ac mae'n fenter arloesol ar y cyd ar gyfer cynnig gwasanaethau mabwysiadu. Daeth â gwasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol Cymru ynghyd i greu strwythur 3 haen sy'n cynnwys partneriaethau ar bob lefel gydag Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol Cymru, Gwasanaethau Iechyd ac Addysg ymhlith rhai eraill.

1.4 Ar lefel awdurdod lleol, mae'r holl gynghorau Cymreig yn dal i ddarparu gwasanaethau i blant sy'n derbyn gofal gan adnabod a gweithio gyda'r plant y mae cynllun mabwysiadu yn addas iddynt.

1.5 Yn rhanbarthol, mae'r holl awdurdodau lleol yn gweithio gyda'i gilydd o fewn pum cydweithrediad rhanbarthol i gynnig ystod o wasanaethau mabwysiadu. Mae gan bob cydweithrediad rhanbarthol gysylltiadau ag asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol, iechyd ac addysg. Mae'r gwasanaethau a gynigir yn amrywio mewn pob cydweithrediad, ond maent oll yn cynnig swyddogaethau asiantaeth mabwysiadu i blant, recriwtio ac asesu mabwysiadwyr, cynnig cwnsela i rieni genedigol a chyngor i oedolion a fabwysiadwyd. Ar hyn o bryd, mae rhai ohonynt yn cynnig gwasanaethau cymorth mabwysiadu'n uniongyrchol, ond mae hyn yn gyfrifoldeb ar yr awdurdod lleol mewn mannau eraill. Ein blaenoriaeth ar hyn o bryd yw gwella gwasanaethau cymorth mabwysiadu ac rydym yn gweithredu ein 'Fframwaith Cymorth Mabwysiadu'.

1.6 Mae Bwrdd Llywodraethu a Grŵp Ymgynghorol yn goruchwylio'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn gyffredinol. Ar lefel leol, mae Pwyllgorau Rheoli Rhanbarthol yn goruchwylio'r gwasanaethau rhanbarthol. Mae'r gwasanaeth yn adrodd i Weinidogion Cymru ddwywaith y flwyddyn.

**2. Y Sefyllfa Gyfredol**

2.1 Cyngor Sir Fwrdeistrefol Wrecsam yw'r Cyngor lletyol ar gyfer y gwasanaeth. Ers 2010 mae staff wedi cael ei secondio i'r gwasanaeth gan barhau i weithio o'u hawdurdodau lleol gwreiddiol, heblaw am staff Sir y Fflint, sydd wedi ei leoli yn Wrecsam.

2.2 Mewn partneriaeth gyda'r 6 awdurdod lleol mae Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru yn gyfrifol am ddarparu'r gwasanaethau canlynol:

- Recriwtio, hyfforddi, asesu a chefnogi darpar fabwysiadwyr a rhai sydd eisoes wedi cael eu cymeradwyo.
- Cyfatebu plant i fabwysiadwyr.
- Mynediad I Gofnodion S98, Gwasanaethau Cyfryngol a Chilio am oedolion sydd wedi cael eu mabwysiadu a'u teuluoedd.
- Cwnsela I Rieni Genedigol.
- Cefnogi Mabwysiadu- Grwpiau Cefnogi, diwrnodau hwyl a chylchlythyrau.
- Datblygu a rheoli paneli mabwysiadu ar y cyd.
- Mabwysiadu gan Bartner Rhieni (Step parent adoption)
- Mabwysiadu gydag elfen dramor.

**3. Ystadegau**

3.1 Mae'r data isod wedi ei gymryd allan o ddata'r Gwasanaeth Mabwysiadu rhanbarthol ar gyfer y flwyddyn 2018-19:

Gweithgaredd Recriwtio

| **ALl** | **Conw** | **Dinb** | **Fflint** | **Gwyn** | **Wrec** | **Ynys Môn** | **Arall/ NWAS** | **2018-2019** | **2017-2018** | **2016-2017** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ymholiadau** | 26 | 24 | 42 | 19 | 37 | 12 | 7 | **167** | **173** | **162** |
| **Ffurflenni Ymateb** | 11 | 12 | 11 | 5 | 12 | 5 | 3 | **59** | **63** | **61** |
| **Ymweliadau Cychwynnol** | 9 | 12 | 13 | 4 | 11 | 4 | 2 | **55** | **53** | **62** |
| **Ffurflenni Cais** | 4 | 6 | 7 | 2 | 3 | 3 | 1 | **26** | **26** | **43** |

Nifer o Fabwysiadwyr sy'n cael eu hasesu

| | Conwy | Dinbych | Fflint | Gwyn | Wrecsham | Ynys Mon | Arall | Cyf 18/19 | Cyf 17/18 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mabwysiadwyr sy'n cael eu hasesu ar hyn o bryd | 4 | 4 | 4 | 1 | 2 | 3 | 0 | **18** | **16** |
| Gofalwyr Maeth sydd eisiau Mabwysiadu | 0 | 1 | 1 | 0 | 1 | 0 | 0 | **3** | **2** |
| Partner I Rieni sy'n cael eu hasesu | 0 | 2 | 0 | 0 | 2 | 0 | 0 | **4** | **7** |

| Cyfanswm asesiadau | 4 | 7 | 5 | 1 | 5 | 3 | 0 | **25** | **25** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

Mabwysiadwyr sydd wedi eu cymeradwyo

| | Conwy | Dinbych | Fflint | Gwyn | Wrecsam | Ynys Mon | Arall NWAS | Asiantaeth arall | Cyf |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ar gael | 0 | 1 | 0 | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 | 3 |
| Potensial o gyfatebiad ac felly ddim ar gael | 3 | 2 | 2 | 1 | 0 | 0 | 1 | 4 | 13 |

Plant a leolwyd Ebrill 2018 – Mawrth 2019

| | Conw | Dinb | Fflint | Gwyn | Wrec | Ynys Mon | **Cyf 18-19** | Cyf 17-18 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer plant a gyfeirwyd | 16 | 8 | 9 | 3 | 12 | 3 | **51** | 55 |
| Nifer plant a argymhellwyd fel cyfatebiad mewn panel | 9 | 8 | 5 | 5 | 9 | 3 | **39** | 41 |
| Nifer plant a leolwyd I fabwysiadu | 11 | 6 | 6 | 6 | 7 | 3 | **39** | 41 |
| Nifer plant a fabwysiadwyd | 11 | 10 | 5 | 5 | 2 | 2 | **35** | 39 |
| 26 plentyn wedi ei leoli gyda mabwysiadwyr NWAS (2 grwp sibling)<br>13 plentyn gydag asiantaeth arall (1 grŵp sibling | | | | | | | | |

Plant yn aros am leoliad mabwysiedig

| | Conw | Dinb | Fflint | Gwyn | Wrec | Ynys | Cyf | Cyf |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Plant lle mae potensial cyfatebiad ond heb eu lleoli | 6 | 1 | 3 | 3 | 5 | 3 | 0 | **21** |
| Plant – dim cyfatebiad ar hyn o bryd | 4 | 7 | 1 | 2 | 7 | 1 | 0 | **22** |
| Cyfanswm nifer o deuluoedd sydd eu hangen | 4 | 6 | 1 | 2 | 6 | 1 | | **20** |

Gweithgaredd Panel

| **Panel** | **Fflint/Wrec** | **Conw/Dinb** | **Gwyn/Ynys** | **Cyf 2019** | **Cyf 2018** |
|---|---|---|---|---|---|
| Asesiadau Mabwysiadu | **7** | **5** | **6** | **18** | **26** |
| Argymhelliad “ Dylid Mabwysiadu” | **3** | **0** | **0** | **3** | **0** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfatebu (nifer y plant) | **11** (14 plentyn | **15** (17 plentyn) | **7** (7 plentyn) | **33** (38) | **32 (42)** |
| Gohirio argymhelliad | **3** | 0 | **2** | **5** | 4 |
| Dadgofrestru | 0 | 0 | 0 | | 0 |
| Adolygu | 0 | **2** | 0 | **2** | **8** |
| Cyfanswm | **24** | **22** | **15** | **61** | 70 |

**4. Y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol**

4.1 Mae perfformiad holl ranbarthau Cymru yn cael ei gasglu gan y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol (gweler Adroddiad Blynyddol yn Atodiad 1).

4.2 Ar gyfer Gogledd Cymru'r prif gyraeddiadau ar gyfer 2018-19 oedd:

- Penodi Swyddog Cydlynu Cyswllt sy'n cynnig ymateb gyson a chefnogaeth i fabwysiadwyr a rhieni biolegol o ran cyswllt uniongyrchol ac anuniongyrchol.
- Aethpwyd at i weithio gyda'r arbenigwr Richard Rose, i weithredu'r Fframwaith Hanes Bywyd.
- Ehangwyd y cynllun cyfaill i fabwysiadwyr.
- Buddsoddwyd mewn cynyddu sgiliau'r Swyddog Hyfforddi – cwblhau lefel 2 seicotherapi datblygiadol Deuol ac ar hyn o bryd mae'n dilyn diploma mewn rhianta therapiwtig.

4.3 Y cynllun cenedlaethol ar gyfer 2019-20 yw adeiladu ar y gwelliannau a wnaed dros bum mlynedd gyntaf y GMC; gan elwa'n fawr ar y cyllid buddsoddi newydd sydd ar gael. Mae hyn ar ffurf £2.3m gan Lywodraeth Cymru i wella gwasanaethau; tua £250,000 drwy Adoption UK Cymru ar gyfer TESSA gan Gronfa Cymunedau'r Loteri Fawr, yn ogystal â chymorth grant o tua £300,000 i'r Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol o gynllun grant Trydydd Sector Llywodraeth Cymru y cytunwyd arno ar hyn o bryd hyd at 2020. Bydd y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn parhau i weithio i ddarparu gwasanaethau i niferoedd uchel o blant, pobl ifanc a theuluoedd ac eraill y mae mabwysiadu yn effeithio arnynt; yn bennaf trwy wasanaethau rhanbarthol y GMC a'r Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol. Bydd busnes craidd y gwasanaeth yn parhau i fod, gan recriwtio mabwysiadwyr fel bod plant na allant dderbyn gofal gan eu teuluoedd eu hunain, yn gallu byw mewn cartrefi sefydlog, cariadus fel y dewis arall, gorau. Mae cysylltiad agos rhwng gwaith y GMC a Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Faterion Plant, Llywodraeth Cymru (MAG). Mae mabwysiadu yn ymddangos ar draws y nifer o ffrydiau gwaith y fenter genedlaethol bwysig hon.

**5. Blaenoriaethau NWAS ar gyfer 2019-20**

5.1 Fe gynhaliwyd adolygiad o'r gwasanaeth yn 2017-18 gyda'r cylch gorchwyl canlynol:

- I adnabod a gwneud yn fwy clir y model ariannu cyfredol ar gyfer NWAS.
- I gael dealltwriaeth ac adnabod modelau ariannu rhanbarthau eraill yng Nghymru.
- I argymell unrhyw newidiadau sydd eu hangen ar gyfer model ariannu presennl NWAS.
- I baratoi adroddiad adolygu ar gyfer Bwrdd Rheoli NWAS.

Canlyniad yr adolygiad oedd adnabodd nad oedd capasiti digonol, ar lefel gweithredol a strategol I reoli a datlbygu'r gwasanaeth. Ymhellach I hynny, ni fyddai'n bosib darparu Gwasanaethau Cefnogi Mabwysiadu ehangach (Arian ychwanegol gan Llywodraeth Cymru) gyda'r sefydliad staffio presennol.

Mae gwaith wedi digwydd felly ar ail fodelu strwythur y gwasanaeth a symud tuag at wasanaeth sy'n cael ei reoli'n llawn gan Gyngor Wrecsam. Bydd yr holl staff presennol yn trosglwyddo i gyflogaeth

Cyngor Wrecsam, ond yn parhau i weithio o'u hawdurdodau lleol presennol. Dylai'r gwaith hwn fod wedi ei gwblhau erbyn diwedd Mawrth 2020.

5.2 Mae'r cyllid ychwanegol o £2.3 miliwn yn genedlaethol ar gyfer datblygu gwasanaethau cefnogi mabwysiadu yn cynnwys £378,000 ar gyfer Gogledd Cymru. Mae NWAS wedi cynhyrchu Cynllun Gweithredu sy'n cynnwys cyflogi Gweithwyr Cefnogi Mabwysiadu ychwanegol ar draws y rhanbarth ac mae'r swyddi yn cael eu hysbysebu fel rhan o adolygiad y gwasanaeth. Bydd rhai o'r swyddi newydd yn golygu cymysgedd o sgiliau gwahanol a bydd yn galluogi NWAS I ddarparu gwasanaeth mwy eang a gwell i fabwysiadwyr a'u plant mabwysiedig wrth gyrraedd y gofynion statudol.

5.3 Gweithiodd y GMC ochr yn ochr â Adoption UK, i ddatblygu elfen Cymru, o gais llwyddiannus ledled y DU am gyllid gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol ar gyfer gwasanaeth TESSA. TESSA – dechreuwyd sefydlu gwasanaeth cymorth addysg therapiwtig i deuluoedd sy'n mabwysiadu yng Nghymru ym mis Chwefror 2019. Y bwriad yw bod y GMC yn ychwanegu at yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer TESSA trwy arian cyfatebol o'r buddsoddiad yn 2019/20. Nod y gwasanaeth yw cyflawni:

- Ffocws ar ymyrraeth gynnar a chymorth cyn gynted ag y bydd pryderon yn codi ar ôl y cyfnod ymgartrefu
- Asesiadau seicolegol proffesiynol i blant, gyda'r wybodaeth yn cael ei rhannu gyda rhieni a staff eraill sy'n darparu cymorth
- Cymorth magu plant ar ffurf 6 sesiwn therapiwtig, gan dimau sy'n cynnwys seicolegydd clinigol a rhieni sydd yn brofiadol o ran mabwysiadu (rhieni-bartneriaid)
- Cefnogaeth barhaus gan rhieni-bartneriaid.